OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 123 (Cy.16)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*24 Ionawr 2006*
Yn dod i rym - -	*26 Ionawr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**), o ran Cymru, at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 26 Ionawr 2006.

Cymhwyso dyletswydd gofal o ran gwastraff cartref i wastraff o eiddo domestig yng Nghymru

2.—(1) Yn adran 34(2A) (dyletswydd gofal etc. o ran gwastraff) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**), ar ôl "England" mewnosoder "or Wales".

(2) Yn adran 2(2) o Reoliadau Gwastraff a Reolir 1992(**4**), ar ôl "England" mewnosoder "or Wales".

(**1**) O.S. 2005/850.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) 1990 p.43.
(**4**) O.S. 1992/588, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.